Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd o dan adran 43 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

2026 Rhif

Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2026

Gwnaed	***
Yn dod i rym	*1 Rhagfyr 2026*

Draft Regulations laid before Senedd Cymru in accordance with the Senedd approval procedure under section 43 of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4).

DRAFT WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No.

The Legislation (Wales) Act 2019 (Amendment of Schedule 1) Regulations 2026

Made	***
Coming into force	*1 December 2026*

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd o dan adran 43 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

2026 Rhif

DEHONGLI DEDDFWRIAETH, CYMRU

Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, sy'n gwneud darpariaeth ynglŷn ag ystyr geiriau ac ymadroddion penodol pan fyddant yn ymddangos mewn Deddfau gan Senedd Cymru ac is-offerynnau Cymreig. Mae'r geiriau a'r ymadroddion i'w dehongli yn unol ag Atodlen 1 ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall.

Mae'r Rheoliadau yn mewnosod darpariaethau yn Atodlen 1 ynghylch ystyr "terfyn cyffredinol mewn llys ynadon".

Maent hefyd yn diwygio Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Deddf Diogelwch Adeiladau (Cymru) 2026, a Deddf Cynllunio (Cymru) 2026 o ganlyniad i fewnosod y term diffiniedig "terfyn cyffredinol mewn llys ynadon" yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ac ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd o dan adran 43 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

2026 Rhif

DEHONGLI DEDDFWRIAETH, CYMRU

Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2026

Gwnaed	***
Yn dod i rym	*1 Rhagfyr 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 6(2) a (3) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019(**1**).

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 43(2) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2026.

(2) Daw'r rheoliadau i rym ar 1 Rhagfyr 2026.

Diwygio Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

2.—(1) Mae'r Tabl yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (diffiniadau o eiriau ac ymadroddion sy'n ymddangos mewn Deddfau gan Senedd Cymru ac is-offerynnau Cymreig) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor—

"terfyn cyffredinol mewn llys ynadon (*general limit in a magistrates' court*)	ystyr "terfyn cyffredinol mewn llys ynadon", mewn perthynas â chyfnod o garchar mewn cysylltiad â throsedd neillffordd o dan gyfraith Cymru a Lloegr, yw'r terfyn a osodir mewn cysylltiad â'r drosedd gan adran 224(1) o'r Cod Dedfrydu (fel y mae'n cael effaith o bryd i'w gilydd)".

(**1**) 2019 dccc 4, a ddiwygiwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1), Atodlen 1, paragraff 5. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

Diwygiadau canlyniadol i Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

3.—(1) Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023(**2**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 58 (y drosedd o ddifrodi henebion penodol o ddiddordeb hanesyddol arbennig), yn is-adran (5), ym mharagraff (a), yn lle "terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o'r Cod Dedfrydu" rhodder "terfyn cyffredinol mewn llys ynadon".

(3) Yn adran 117 (y drosedd o gyflawni gwaith anawdurdodedig neu dorri amod mewn cydsyniad), yn is-adran (6), ym mharagraff (a), yn lle "terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o'r Cod Dedfrydu" rhodder "terfyn cyffredinol mewn llys ynadon".

Diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Diogelwch Adeiladau (Cymru) 2026

4.—(1) Mae Deddf Diogelwch Adeiladau (Cymru) 2026(**3**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 19 (gofyniad i gofrestru adeiladau categori 1 ac adeiladau categori 2), yn is-adran (2), ym mharagraff (a), yn lle "terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o'r Cod Dedfrydu" rhodder "terfyn cyffredinol mewn llys ynadon".

(3) Yn adran 21 (dyletswydd i hysbysu am newidiadau), yn is-adran (3), ym mharagraff (a), yn lle "terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o'r Cod Dedfrydu" rhodder "terfyn cyffredinol mewn llys ynadon".

(4) Yn adran 24 (dyletswydd i roi declarasiwn ynghylch cywirdeb gwybodaeth a dogfennau sydd wedi eu cynnwys yn y gofrestr), yn is-adran (9), ym mharagraff (a), yn lle "terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o'r Cod Dedfrydu" rhodder "terfyn cyffredinol mewn llys ynadon".

(5) Yn adran 30 (gofyniad i asesiad risg tân gael ei wneud gan berson cymwys), yn is-adran (6), ym mharagraff (a), yn lle "terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o'r Cod Dedfrydu" rhodder "terfyn cyffredinol mewn llys ynadon".

(6) Yn adran 42 (dyletswydd prif berson atebol i wneud cais am dystysgrif adeilad), yn is-adran (6), ym mharagraff (a), yn lle "terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o'r Cod Dedfrydu" rhodder "terfyn cyffredinol mewn llys ynadon".

(7) Yn adran 45 (dyletswydd prif berson atebol i arddangos tystysgrif a gwybodaeth gysylltiedig), yn is-adran (6), ym mharagraff (a), yn lle "terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o'r Cod Dedfrydu" rhodder "terfyn cyffredinol mewn llys ynadon".

(8) Yn adran 50 (dyletswydd i roi gwybodaeth a dogfennau wrth i berson atebol newid), yn is-adran (6), ym mharagraff (a), yn lle "terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o'r Cod Dedfrydu" rhodder "terfyn cyffredinol mewn llys ynadon".

(9) Yn adran 82 (gofyniad i asesiad risg tân ar dŷ amlfeddiannaeth gael ei wneud gan berson cymwys), yn is-adran (6), ym mharagraff (a), yn lle "terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o'r Cod Dedfrydu" rhodder "terfyn cyffredinol mewn llys ynadon".

(10) Yn adran 101 (hysbysiadau: troseddau), yn is-adran (3), ym mharagraff (a), yn lle "terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o'r Cod Dedfrydu" rhodder "terfyn cyffredinol mewn llys ynadon".

(11) Yn adran 107 (toriad sy'n arwain at risg o farwolaeth neu anaf difrifol), yn is-adran (4), ym mharagraff (a), yn lle "terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o'r Cod Dedfrydu" rhodder "terfyn cyffredinol mewn llys ynadon".

(**2**) 2023 dsc 3.
(**3**) 2026 dsc 5.

(12) Yn adran 108 (gwybodaeth anwir a chamarweiniol), yn is-adran (6), ym mharagraff (a), yn lle “terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o’r Cod Dedfrydu” rhodder “terfyn cyffredinol mewn llys ynadon”.

Diwygiad canlyniadol i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026

5.—(1) Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2026(**4**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 192 (troseddau), yn is-adran (2), ym mharagraff (b), yn lle “terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o’r Cod Dedfrydu” rhodder “terfyn cyffredinol mewn llys ynadon”.

Enw
Y Gweinidog Cabinet dros Effeithiolrwydd Llywodraeth a’r Cyfansoddiad, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**4**) 2026 dsc 6.

Draft Regulations laid before Senedd Cymru in accordance with the Senedd approval procedure under section 43 of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4).

DRAFT WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No.

INTERPRETATION OF LEGISLATION, WALES

The Legislation (Wales) Act 2019 (Amendment of Schedule 1) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend Schedule 1 to the Legislation (Wales) Act 2019, which makes provision about the meaning of certain words and expressions when they appear in Acts of Senedd Cymru and Welsh subordinate instruments. The words and expressions are to be interpreted in accordance with Schedule 1 except so far as express provision is made to the contrary or the context requires otherwise.

The Regulations insert provisions into Schedule 1 about the meaning of "general limit in a magistrates' court".

They also amend the Historic Environment (Wales) Act 2023, the Building Safety (Wales) Act 2026, and the Planning (Wales) Act 2026 as a consequence of the insertion of the defined term "general limit in a magistrates' court" in Schedule 1 to the Legislation (Wales) Act 2019.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations and it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

Draft Regulations laid before Senedd Cymru in accordance with the Senedd approval procedure under section 43 of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4).

DRAFT WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No.

INTERPRETATION OF LEGISLATION, WALES

The Legislation (Wales) Act 2019 (Amendment of Schedule 1) Regulations 2026

Made	***
Coming into force	*1 December 2026*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 6(2) and (3) of the Legislation (Wales) Act 2019(**1**).

In accordance with the Senedd approval procedure applied by section 43(2) of that Act, a draft of this Welsh statutory instrument was laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Legislation (Wales) Act 2019 (Amendment of Schedule 1) Regulations 2026.

(2) The regulations come into force on 1 December 2026.

Amendments to Schedule 1 to the Legislation (Wales) Act 2019

2.—(1) The Table in Schedule 1 to the Legislation (Wales) Act 2019 (definitions of words and expressions appearing in Acts of Senedd Cymru and Welsh subordinate instruments) is amended as follows.

(2) Insert the following entry in the appropriate place in alphabetical order—

"general limit in a magistrates' court (*terfyn cyffredinol mewn llys ynadon*)	"general limit in a magistrates' court", in relation to a term of imprisonment in respect of an offence triable either way under the law of England and Wales, means the limit laid down in respect of the offence by section 224(1) of the Sentencing Code (as it has effect from time to time)".

(**1**) 2019 anaw 4, amended by the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1), Schedule 1, paragraph 5. There are other amendments not relevant to this instrument.

Consequential amendments to the Historic Environment (Wales) Act 2023

3.—(1) The Historic Environment (Wales) Act 2023(**2**) is amended as follows.

(2) In section 58 (offence of damaging certain monuments of special historic interest), in subsection (5), in paragraph (a), for "the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code" substitute "the general limit in a magistrates' court".

(3) In section 117 (offence of carrying out unauthorised works or breaching condition of consent), in subsection (6), in paragraph (a), for "the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code" substitute "the general limit in a magistrates' court".

Consequential amendments to the Building Safety (Wales) Act 2026

4.—(1) The Building Safety (Wales) Act 2026(**3**) is amended as follows.

(2) In section 19 (requirement to register category 1 buildings and category 2 buildings), in subsection (2), in paragraph (a), for "the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code" substitute "the general limit in a magistrates' court".

(3) In section 21 (duty to notify changes), in subsection (3), in paragraph (a), for "the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code" substitute "the general limit in a magistrates' court".

(4) In section 24 (duty to give declaration about accuracy of information and documents included in register), in subsection (9), in paragraph (a), for "the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code" substitute "the general limit in a magistrates' court".

(5) In section 30 (requirement for fire risk assessment to be made by competent person), in subsection (6), in paragraph (a), for "the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code" substitute "the general limit in a magistrates' court".

(6) In section 42 (duty of principal accountable person to apply for building certificate), in subsection (6), in paragraph (a), for "the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code" substitute "the general limit in a magistrates' court".

(7) In section 45 (duty of principal accountable person to display certificate and related information), in subsection (6), in paragraph (a), for "the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code" substitute "the general limit in a magistrates' court".

(8) In section 50 (duty to give information and documents on change of accountable person), in subsection (6), in paragraph (a), for "the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code" substitute "the general limit in a magistrates' court".

(9) In section 82 (requirement for HMO fire risk assessment to be made by competent person), in subsection (6), in paragraph (a), for "the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code" substitute "the general limit in a magistrates' court".

(10) In section 101 (notices: offences), in subsection (3), in paragraph (a), for "the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code" substitute "the general limit in a magistrates' court".

(11) In section 107 (contravention giving rise to risk of death or serious injury), in subsection (4), in paragraph (a), for "the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code" substitute "the general limit in a magistrates' court".

(**2**) 2023 asc 3.
(**3**) 2026 asc 5.

(12) In section 108 (false and misleading information), in subsection (6), in paragraph (a), for "the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code" substitute "the general limit in a magistrates' court".

Consequential amendment to the Planning (Wales) Act 2026

5.—(1) The Planning (Wales) Act 2026(**4**) is amended as follows.

(2) In section 192 (offences), in subsection (2), in paragraph (b) for "the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code" substitute "the general limit in a magistrates' court".

Name
The Cabinet Minister for Government Effectiveness and the Constitution, one of the Welsh Ministers
Date

(**4**) 2026 asc 6.